CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for the |
| CYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN A OHIRWYD | ADJOURNED ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MERCHER, 31 MAI 2017 | WEDNESDAY 31 MAY 2017 |
| am 3.00 o'r gloch | at 3.00 pm |

# R H A G L E N

## 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 2. CYHOEDDIADAU

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Weithredwr.

## 3. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae ef / hi wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

## 4. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o Gyfansoddiad y Cyngor, penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig.

**[Noder: Paragraff 3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn ei ail gyfarfod (a ohiriwyd) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi pwy yw Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac os oes angen mewn cyfarfodydd eraill) trwy bleidlais gudd, a Bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a Gofnodwyd" yn cael ei hatal ar gyfer y pwrpas hwn.**

**Paragraff 3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith)].**

## 5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.5 o'r Cyfansoddiad).

## 6. RHAGLEN CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR SIR

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-

- 26 Medi 2017 - 2.00pm
- 12 Rhagfyr 2017 - 2.00pm
- 28 Chwefror 2018 - 2.00pm
- 15 Mai 2018 (Cyfarfod Blynyddol) - 2.00pm

## 7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CYNGHORWYR I BWYLLGORAU

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol diweddar ar 4 Mai 2017, ac ar benodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

**[Noder: Mae cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i grwpiau gwleidyddol ac nid i Aelodau Digyswllt. Yn y cyfarfod heddiw (gohiriedig), bydd y Cyngor yn neilltuo Aelodau a enwir i wasanaethu ar Bwyllgorau yn unol â phenderfyniadau Arweinwyr eu Grwpiau a bydd yn penodi unrhyw Aelodau Digyswllt i seddau Pwyllgor na ellir eu llenwi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol].**

Yn syth ar ôl yr uchod, bydd pob Pwyllgor y cyfeirir ato isod yn cyfarfod am gyfnod byr i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun (ac eithrio'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a fydd wedi cael sylw dan eitem 4 uchod): -

- Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Is-Gadeirydd)

**[Noder: anfonwyd hysbysiadau ar wahân at holl Aelodau ac aelodau cyfetholedig perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd uchod].**

**8. <u>PENODI I GYRFF ALLANOL</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.